YR ATODLEN

Buddiannau ariannol a buddiannau penodedig eraill sy'n gwrthdaro

## Buddiannau ariannol

**1.**—(1) At ddibenion rheoliad 9, mae buddiant ariannol mewn contract, contract arfaethedig neu fater arall yn cynnwys achos—

(a) lle y cafodd person perthnasol ei enwebu neu ei benodi i swydd fel aelod o gorff sy'n cydlafurio gan berson y gwnaed y contract gydag ef neu berson y bwriedir ei wneud gydag ef;

(b) lle y mae person perthnasol yn bartner i berson, neu yng nghyflogaeth person y gwnaed y contract gydag ef neu berson y bwriedir ei wneud gydag ef; neu

(c) lle y mae perthynas i berson perthnasol (gan gynnwys priod neu bartner sifil y person hwnnw o fewn ystyr Deddf Partneriaeth Sifil 2004(**1**) neu rywun sy'n byw gyda'r person hwnnw fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil i'r person), yn meddu, neu lle y byddai'n cael ei drin fel un sy'n meddu, ar fuddiant o'r fath, a bod hynny'n hysbys i'r person perthnasol hwnnw.

(2) At ddibenion rheoliad 9, rhaid peidio â thrin person perthnasol fel un sy'n meddu ar fuddiant ariannol yn unrhyw fater—

(a) ar yr amod nad yw ei fuddiant yn y mater ddim mwy na buddiant y rhan fwyaf o'r rhai sy'n cael eu talu i weithio i'r corff sy'n cydlafurio;

(b) dim ond oherwydd bod y person hwnnw wedi'i enwebu neu wedi'i benodi i swydd, gan unrhyw gorff cyhoeddus, neu ei fod yn aelod o, neu'n cael ei gyflogi gan, unrhyw gorff o'r fath; neu

(c) dim ond oherwydd bod y person hwnnw yn aelod o gorfforaeth neu gorff arall, os nad oes gan y person unrhyw fuddiant ariannol o bwys mewn unrhyw warantau'r gorfforaeth honno neu'r corff arall hwnnw.

(3) Nid oes rhwystr i aelodau o'r cydbwyllgor, oherwydd eu buddiant ariannol yn y mater, rhag ystyried cynigion a phleidleisio ar gynigion i un neu fwy o'r cyrff sy'n cydlafurio i drefnu yswiriant sy'n diogelu eu ei aelodau neu haelodau rhag atebolrwyddau a berir ganddynt ac a fyddai'n codi o'u swyddi ac ni fydd corff sy'n cydlafurio, oherwydd buddiant ariannol ei aelodau, yn cael ei rwystro rhag sicrhau yswiriant o'r fath a thalu'r premiymau.

(**1**) 2004 p.33.